

Catchphrase 2003: Ysbyty Brynaber - Week 42

Key language

Question forms: Ble/Sut/Pryd/Faint/Pam

Ailments

Dweud wrth etc.

New Words

Diffodd	to turn off
Egluro	to explain
Cytuno	to agree
Angen	need
Hongian	to hang
Wastad	always
Ail-ystyried	to reconsider
Galwyn	a gallon
Fy nhro i	my turn
Cymaint	so much
Gorwedd	to lie down
Dychmygu	to imagine
Difyr	interesting
Oddi ar	off
Gair o gyngor	a word of advice
Pwyso ar dy feddwl	to weigh on your mind
Penderfyniad	decision
Troi yn ôl	to turn back
Bwriadu	to intend
Mewn golwg	in mind
Cyfrinach	secret
Caniatad	permission
Sbort	fun
Yn y man	shortly
Gwadd	to invite
Cryf	strong
Nerth	strength
Lluchio	to throw
Cymryd gofal	to take care
Gwasgu	to squeeze

Main Grammatical Points

Let's have a look at some question and verb forms that crop up pretty regularly in conversation but that can cause some confusion for Welsh learners.

Firstly Ble

Ble is always followed by the affirmative form of the verb, for example

Ble rwyd ti'n mynd?

Ble roedddest ti neithiwr?

Ble fyddi di'n aros?

A common error by learners is to ask Ble ydy? – it's always Ble mae?

Pryd, Faint, Sut, and Pam follow the same pattern, for example

Pryd?	
Pryd mae dy ben-blwydd di?	When is your birthday?
Pryd wyt ti'n symud i mewn?	When are you moving in?

Faint?	
Faint roedd e'n gostio?	How much did it cost?
Faint dalodd e?	How much did he pay?

Sut?	
Sut mae hi heddiw?	How is she today?
Sut oedd llun y babi?	How was the baby's picture?

Pam?	
Pam wyt ti i fod i yfed cymaint o ddwr?	Why are you supposed to drink so much water?
Pam roeddet ti mor hwyr?	Why were you so late?

Note that sometimes you will hear people saying

Pam bod for example

Pam bod y gêm yn dechrau'n hwyr?	Why is the game starting late?
----------------------------------	--------------------------------

Although this pattern is quite common amongst Welsh speakers it is not strictly correct.

You should therefore use Pam mae etc.

Arwyn says; Ac mae pen tost 'da fi

In Welsh when we talk about illnesses there are two main constructions.

If a part of the body is mentioned e.g. pen tost in south Wales or cur pen in north Wales the form is: Mae pen tost gyda fi/ Mae pen tost 'da fi or in north Wales - Mae gen i gur pen

Mae gen i fraich boenus or Mae braich dost gen i.

However if no part of the body is mentioned and an ailment is referred to the pattern is as follows:

Annwyd - a cold

Mae annwyd arna i.
Oes annwyd arnat ti?

Gwres - temperature

Mae gwres arni hi.	She's got a temperature.
--------------------	--------------------------

Ffliw
Mae'r fflw arnyn nhw. They've got the flu.

Note again the preposition that follows dweud meaning to tell someone.

Agnes says:	Ti'n dweud wrtho i	You're telling me
And Arwyn says:	A dweud y gwir wrthot ti	To tell you the truth

Full forms are:

dweud wrtho i

dweud wrthot ti
dweud wrth Agnes
dweud wrthi hi
dweud wrtho fe
dweud wrthon ni
dweud wrthoch chi
dweud wrthyn nhw

Ysbyty Brynaber: Episode 124

Arwyn and Jenny continue to discuss their future. Arwyn pleads with his wife to change her mind.

Wendy tells Brian about her visit to the Maternity clinic.

Geirfa

Diffodd	to turn off
Egluro	to explain
Cytuno	to agree
Angen	need
Hongian	to hang
Wastad	always
Ail-ystyried	to reconsider
Galwyn	a gallon
Fy nhro i	my turn
Cymaint	so much
Gorwedd	to lie down
Dychmygu	to imagine
Difyr	interesting

Golygfa 1

Jenny – Rwyf ti wedi codi...?

Arwyn - Ffaelu cysgu.

Jenny – Dwyt ti ddim yn gweithio heddiw wyt ti?

Arwyn – Nac ydw. Nac ydw, dw i ddim yn gweithio heddiw...

Jenny - Reit. Dw i mynd i'r ysbyty.

Arwyn - Jenny?

Jenny - Ie? Beth? Beth, Arwyn?

Arwyn - Gad i fi ddiffodd y radio 'ma. Edrycha...Sori. Gysgais i'n wael iawn eto neithiwr... ac mae pen tost 'da fi...Ac efallai bod beth sydd 'da fi i ddweud nawr ddim yn mynd i wneud lot o sens...

Jenny - Arwyn. Dw i'n gorfod mynd i'r gwaith.

Arwyn - Ma'n rhaid inni siarad.

Jenny - Dwyt ti ddim yn mynd i newid fy meddwl i...

Arwyn - Alla i drio...

Jenny - Na. Wnei di ddim. Dw i am i ni wahanu. Alla i ddim byw hefo ti ddim mwy.

Arwyn - Pam?

Jenny - Dw i wedi egluro pam neithiwr. Ac rôn i'n meddwl ein bod ni'n dau wedi cytuno i roi 'space' i'n gilydd. 'Break'. Dyna beth rwyf ti angen. A dyna beth dw i eisiau.

Arwyn - Ie...Efallai...Ond dw i'n ffaelu mynd i Portiwgal i chwarae golff dydd Mercher a rhywbeth fel hyn yn hongian uwch fy mhen i, ydw i?

Jenny - Pam lai? Dyna'r peth gorau all ddigwydd. Dylet ti fynd i Villamoura hefo Ken Evans a'r criw.

Rwyf ti wastad yn mwynhau chwarae golff adeg yma bob blwyddyn...

Arwyn – Wyt ti'n cofio'r gwyliau gest ti a fi yn Albufeira tua deg mlynedd yn ôl...?

Jenny - Ydw. Wrth gwrs fy mod i.

Arwyn - Y gwyliau gorau gawson ni erioed. Plis, Jen. Sa i moyn inni wahanu. Dw i'n erfyn arnat ti: wnei di ail-ystyried?

Jenny - Arwyn...Sori. Ond mae'n well i mi fynd, neu mi fydda i'n hwyr i'r gwaith...

Arwyn - Wnei di ail-ystyried?

Jenny - Dw i'n gorfod mynd rwan.

Arwyn - Wnei di? Plis? Er fy mwyn i sy'n dy garu di...

Golygfa 2

Brian - Ti'n O.K.?

Wendy - Just about.

Brian - Beth sy'n bod?

Wendy - Cyn yr ante-natal check-up maen nhw gofyn i ferched pregnant yfed lot o ddwr...

Brian - A faint wnest ti yfed bore 'ma?

Wendy - Put it this way: I would easily have put a baby elephant to shame.

Brian - Galwyn?

Wendy - Na, ddim cweit yn galwyn...Mwy fel tri peint a tipyn bach mwy wrth i fi swigo mas o'r botel wrth aros fy nhro i fynd i'w gweld nhw...

Brian - Pam wyt ti fod i yfed cymaint o ddwr?

Wendy - Os wyt ti'n yfed lot o ddwr mae e'n helpu'r 'bladder' i gwthio yr 'uterus' lan for a better picture...

Brian - Reit.

Wendy - Ie. Ond ti'n gorwedd fan'na....edrych ar y blur cloudy looking thingy picture 'ma ar y monitor with this snail like cold thing on your belly...

Brian - Yr 'ultra sound scan'...?

Wendy - Ie. And all you can think about is how bad you want to go to the toilet. Beth sy mor 'funny'?

Brian - Dim.

Wendy - Beth? Come on. Out with it, pal.

Brian - Dim ond dychmygu ti rôn i.

Wendy - What?

Brian - Dychmygu ti.

Wendy - Dychmygu fi what?

Brian - Yn y clinic.

Wendy - On my own. As usual.

Brian - Sut oedd llun y babi?

Wendy - Much as you care.

Brian - Sut beth ydy llun 'two dimensional' i edrych arno fo? Difyr, siwr o fod...

Wendy - Two dimensional? Three dimensional? If it was six dimensional would you give a monkey?

Brian - Ein babi ni ydy o, Wendy.

Wendy - Yeah. Well.

Brian - Ac roedd y babi yn iach? Oedd o?

Wendy - As far as they can tell.

Brian - Beth wyt ti'n feddwl?

Wendy - Yeah. Of course. You look out for anomalies...Ond dwyt ti byth yn gallu bod yn siwr...Hundred per cent siwr...The only way to be really sure is if you pay private and go for a three dimensional scan.

Brian - lawn. Beth am dalu? Beth am fod yn saff? Sut basai hynny yn dy blesio di?

Wendy - You're not too bad after all. Are you, Bri?

Ysbyty Brynaber: Episode 125

Jenny tells Arwyn that her decision to leave him is final. She also divulges where she intends living.

Agnes accuses Brian of not having any interest in her.

Geirfa

Oddi ar	off
Gair o gyngor	a word of advice
Pwyso ar dy feddwl	to weigh on your mind
Penderfyniad	decision
Troi yn ôl	to turn back
Bwriadu	to intend
Mewn golwg	in mind
Cyfrinach	secret
Caniatad	permission
Sbort	fun

Golygfa 1

Agnes - Aeth Arwyn bant i Bortiwgal i chware golff 'da Kenneth Evans a'r criw?

Jenny - Do. Yn gynnar bora 'ma.

Agnes - O ble roedden nhw'n hedfan? Heathrow?

Jenny - Nage. Stansted.

Agnes - Am faint maen nhw'n mynd mas yno?

Jenny - Tan bnawn dydd Llun. Agnes? Oes eiliad gen ti?

Agnes - Oes. Dere i mewn i'r swyddfa. Gad i fi symud y pecyn ffeilie yma oddi ar y gadair...Dyna ni...eistedd...

Jenny - Diolch. Eisiau sgwrs ydw i...Na. Ddim sgwrs yn hollol. Dim ond gair o gyngor...

Agnes - Wel, yn fodlon gwrando fel ti'n gwybod yn iawn.

Jenny - Ydw. Diolch iti. Ti'n ffrind dda i mi, Agnes.

Agnes - A c rwyt ti wedi bod yn ffrind dda i fi hefyd. Dere. Beth sy'n pwyso ar dy feddwl di? Y penderfyniad yma i adael Arwyn, ie?

Jenny - Mae'r penderfyniad wedi cael ei wneud.

Agnes - A does dim troi yn ôl i fod?

Jenny - Nac oes. Does dim troi yn ôl i fod.

Agnes - Pryd wyt ti'n bwriadu symud mas 'te?

Jenny - Gan fod Arwyn yn Portiwgal...Rôn i'n meddwl...wel...pacio a hel fy mhethau at ei gilydd wythnos yma...

Agnes - O?

Jenny - Beth? Ti'n gweld bai arna i?

Agnes - Nac ydw. Y cwestiwn yw: oes rhywle da ti i fynd?

Jenny - Dyna'r peth...Dyna'n union beth rôn i eisiau ei drafod hefo ti...

Agnes - Ti moyn dod ata i dros dro?

Jenny - Nac ydw. Na, mae gen i le mewn golwg...

Agnes - O, oes?

Jenny - Oes.

Agnes - Ble? Beth, mae hyn yn gyfrinach ydy e?

Jenny - Nac ydy. Dw i'n mynd i rentu hen fflat Richard.

Agnes - Hen fflat Richard Allen?

Jenny - Ydw. Os ydw i'n gallu.

Golygfa 2

Rhodri - Ond ga i fynd ar fy mhen fy hunan, Mam?

Agnes - Sa i'n gwybod eto.

Rhodri - Plis, Mam?

Agnes - Gawn ni sgwrs yn y bore. Cer i dy wely nawr!

Rhodri - Mae Owain Gwydion yn cael mynd i'r ffair ar ei ben ei hun! Pam na cha i fynd gyda fe?
 Plis, Mam!

Agnes - Rhodri, cer i dy wely nawr a cer i gysgu!

Rhodri - Ga i? Plis?

Agnes - Fydd rhaid i fi siarad â dy dad. Nawr cer i dy wely! Yffach, grwt - sawl gwaith sy eisiau i fi ofyn iti?

Rhodri - Nos da, Mam.

Agnes - Nos da, Rhodri...

Brian - Wnes i glywed rhywun yn siarad yn fan yma rwan?

Agnes - Rhodri.

Brian - Beth roedd o eisiau?

Agnes - Eisiau caniatad i fynd i'r ffair ar ei ben ei hun nos yfory....

Brian - A beth ddwedaist ti?

Agnes - Dweud y byddet ti a fi yn trafod. Ond smô fe'n deg ar Beca. A sa i'n trysto Rhodri ar ben ei hunan, ta beth. Wy'n credu dylen ni gyd fynd fel teulu...

Brian - Ia. Pam lai?

Agnes - Gawson ni sbort llynedd, on'd do?

Brian - Do. Sbort a hanner ar y 'dodgems' 'na!

Agnes - ... Ti mewn mwd caru heno?

Brian - Oes ots gen ti os wnawn ni beidio...?

Agnes - Nac oes.

Brian - Dw i wedi blino.

Agnes - Diwrnod caled?

Brian - Ie.

Agnes - Yn gwneud beth 'te?

Brian - Y peth yma a'r peth arall.

Agnes - Oes ots 'da ti os dw i'n darllen am ychydig bach?

Brian - Nac oes.

Agnes - Ti'n siwr?

Brian - Ydw.

Agnes - Dw i'n ffael mynd i gysgu os yw'r golau mlaen... Ti byth eisie caru ddim mwy, Bri.

Brian - Paid â siarad yn wirion...

Agnes - Ti ddim. Pryd oedd y tro dwetha?

Brian - Mis diwetha.

Agnes - Dydyn ni ddim wedi caru ers misoedd ar fisoedd...Dyna'r gwir amdani...Nos da.

Ysbyty Brynaber: Episode 126

Arwyn phones Jenny from his golfing holiday in the Algarve.

Brian, Agnes and the children spend an evening at the fair. They are joined by Jenny Saunders. Jenny is sure that she has seen a familiar face amongst the crowd!

Geirfa

Yn y man	shortly
Gwadd	to invite
Cryf	strong
Nerth	strength
Lluchio	to throw
Cymryd gofal	to take care
Gwasgu	to squeeze

Golygfa 1

Jenny - Hello? ...
Arwyn - Jenny? Fi sy 'ma.....
Jenny - O ble rwyd ti'n ffonio? Yr Algarve?
Arwyn - Ie. Wyt ti'n clywed Ken a'r bois yn y bar...?
Jenny - Ydw... Dw i'n clywed rhyw swm chwerthin yn y cefndir...Sut mae'r tywydd...?
Arwyn - Braf iawn. A sut mae'r tywydd yng Nghymru?
Jenny - Gwlyb ac oer...
Arwyn - Ble rwyd ti nawr?
Jenny - Yn y car...
Arwyn - Ble rwyd ti'n mynd?
Jenny - Mae Agnes wedi fy ngwadd i i swper...Ac wedyn, maen nhw fel teulu yn mynd draw i'r ffair...
Arwyn - Wyt ti'n bwriadu mynd gyda nhw?
Jenny - Efallai. Mae'n dibynnu...
Arwyn - Dyn ni bwriadu mynd am pizza yn y man. Dw i'n edrych ymlaen i ddod yn ôl dydd Llun...Wy'n ffael aros a dweud y gwir wrthot ti...Well i fi fynd nôl at Ken a'r bois...Hwyl, Jen.
Jenny - Hwyl.

Golygfa 2

Rhodri - Alla i gael go arall? Alla i? Alla i?
Brian - Wyt ti'n ddigon cry ydy'r cwestiwn?
Rhodri - Wrth gwrs 'mod i'n ddigon cry ...!
Brian - Ond ma' isio nerth i drio hitio'r coconyt 'na i lawr...
Agnes - Sefa di nôl nawr, Beca...
Brian - Ar ôl tri 'ta...Un, dau, tri...
Jenny - Go dda ti, Rhodri!
Agnes - Ie. Bron iti fwrw y coconyt 'na ar y dde off 'i bolyn nawr...
Brian - Pwylllo cyn lluchio. Dyna'r gyfrinach...
Rhodri - Alla i gael go arall?
Brian - Ti wedi cael dau go yn barod!
Rhodri - Plis, Dad!
Agnes - Paid a hala dy arian i gyd ar un peth...
Jenny - Gad i mi dalu am dro arall iddo fo.
Brian - Does dim eisiau iti, Jenny.
Jenny - Na, chwara teg i Rhodri hefyd...
Rhodri - Diolch!
Brian - A tro yma - pwylla cyn lluchio'r bêl. Ti'n deall?
Rhodri - Ydw, ydw!
Brian - Ar ôl tri 'ta...Un, dau, tri...
Jenny - Bron iawn!

Agnes - Do!
Brian – Dwyt ti ddim yn pwylo digon cyn lluchio.
Rhodri - Ie!

Golygfa 3

Rhodri - Mam? Mam? Edrycha arnon ni!
Agnes – Dw i'n yn edrych arnat ti! Nawr cymer ofal!
Brian - Mae o'n chwip o ddreifar!
Agnes - O! Mawredd! Welaist ti beth wnaeth y boi gwallt coch yna jest nawr?
Jenny - Ryffian ydy o.
Agnes - Ryffian, ie. Ti'n dweud wrtho i.
Jenny - Dw i wedi cael y fflat.
Agnes - Fflat Richard?
Jenny - Ie. Ges i'r allwedd echdoe...
Agnes - Ddigwyddodd hynna'n glou.
Jenny - Mae'r lle yn wag on'd ydy?
Agnes - Beth am holl stwff Richard?
Jenny - Mae ei chwaer o wedi galw heibio...
Agnes - Pryd wyt ti'n symud i mewn 'te?
Jenny - Agnes!
Agnes - Aw! Ti'n gwasgu mraich i! Jenny, paid!
Jenny - Edrycha! Edrycha!
Agnes - Beth?
Jenny - Draw yn fa'cw...Yr ochor bella...Wrth y garafan candifflos 'na... Wyt ti'n weld o?
Agnes - Na. Pwy wyt ti'n weld?
Jenny - Y fo ydy o! Richard! Edrycha, Agnes! Edrycha!
Agnes - Ble? Dw i'n ffaelw weld e! Ble mae e?
Jenny - Richard! Richard!...

Synopsis

Jenny has decided to leave Arwyn. And despite pleadings from her husband she was adamant that they should separate. Jenny told Agnes of her decision and that she intended to move to Dic's flat.

Brian, Agnes and the children went to the fairground – they were joined by Jenny Saunders. Jenny saw someone in the crowd:

Test yourself

1. How would you translate 'Why are you late?' into Welsh:
 - a) Pam dy fod ti'n hwyr?
 - b) Pam eich bod chi'n hwyr?
 - c) **Pam rwyf ti'n hwyr?**
2. How would you translate 'When is your birthday?' into Welsh:
 - a) Pryd ydy dy ben-blwydd di?
 - b) Pryd roedd dy be-blwydd di?
 - c) **Pryd mae dy ben-blwydd di?**
3. What is the Welsh for 'Have you got a cold?':
 - a) **Oes annwyd arnat ti?**
 - b) Oes annwyd gyda ti?
 - c) Oes annwyd gyda chi?
4. What is the Welsh for 'to weigh on my mind?':
 - a) pwyso ar fy mraich
 - b) **pwyso ar fy meddwl**
 - c) pwyso ar fy mhen
5. How would you say 'it depends' in Welsh?:
 - a) **Mae'n dibynnu**
 - b) Mae'n derbyn
 - c) Mae'n dilyn
6. What is the Welsh for 'to turn off the television?':
 - a) cau y teledu
 - b) troi y teledu i ffwrdd
 - c) **diffodd y teledu**